KARABO *information*

## YSGOL

**Mae'r ysgol gynradd yn rhad ac am ddim yn Lesotho nawr, ac mae plant fel Karabo'n gallu cael addysg.**

Mae hyd at 70 o ddisgyblion mewn dosbarth felly mae'n rhaid iddyn nhw ymddwyn yn dda. Ond dyw hynny ddim yn broblem oherwydd maen nhw eisiau addysg dda er mwyn cael swydd sy'n talu – bydd hynny'n eu codi nhw allan o'u tlodi. Maen nhw'n gweithio'n galed ond does dim llawer o lyfrau a phan mae'r papur yn gorffen maen nhw'n gorfod sgrifennu ar eu breichiau!

*Pa wersi mae Karabo'n eu cael sydd yr un peth â'ch rhai chi? Pa wersi eraill mae hi'n eu cael a pham mae eu hangen nhw arni?*

## CARTREF

**Mae cartref Karabo'n eitha tebyg i gartrefi tlawd eraill yn Lesotho.**

Mae'r cartref o laid a cherrig gyda tho gwellt a thair stafell – dwy stafell wely a chegin. Mae'r cypyrddau'n eitha gwag oherwydd mae'r rhan fwya o'r bwyd yn cael ei dyfu yn yr ardd. Does ganddyn nhw ddim tap na ffwrn na theledu yn y cartref ond mae ganddyn nhw drydan sy'n cael ei ddefnyddio gyda'r nos yn unig i oleuo bylb.

*Petaech chi'n dangos eich cartref i Karaba beth fyddai hi am ei weld? Pa bethau fyddai'n debyg?*

## SIOPAU

**Mae gan deulu Karabo ychydig ychwaneg o arian o'r llysiau gardd gafodd eu gwerthu i brynu eitemau hanfodol o'r stondin a'r siop.**

Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn ofalus â'u harian oherwydd maen nhw'n cynilo rhag ofn y bydd anffawd. Maen nhw'n tyfu'r rhan fwya o'u bwyd ond mae'r siopau'n dda at gael pethau dydyn nhw ddim yn gallu eu tyfu gartre, fel orenau, reis, halen a sebon. O Lesotho y daw'r rhan fwya o bethau maen nhw'n eu bwyta; dim ond rhai pethau sydd o wledydd eraill.

Beth allai eich teulu chi wneud hebddyn nhw, i arbed arian?

## TEITHIO

**Mae Ysgol Gynradd Morija 2½ o filltiroedd o gartref Karabo – ond mae hi'n gorfod cerdded oherwydd does dim car ganddyn nhw... na beic hyd yn oed.**

Mae rhai pobl yn Lesotho yn gyrru ceir ond mae'r rhan fwya o bobl yn dal bws neu'n cerdded pan fyddan nhw'n mynd i rywle. Yn y trefi a'r brifddinas – Maseru – tarmac yw'r ffyrdd. Ond llwybrau lleidiog, creigiog yw llawer o'r ffyrdd eraill, lle mae bugeiliaid yn marchogaeth eu ceffylau.

Sawl ffordd wahanol o deithio ddefnyddioch chi y llynedd?

## GWNEUD SWPER

**Karabo yw merch hyna'r teulu ac mae disgwyl iddi *hi* wneud y pryd bwyd gyda'r nos.**

Cyn gall hi benderfynu pa fwyd i'w baratoi mae'n rhaid iddi ddechrau'r tân a'i gael i losgi'n dda. Wedyn mae'n casglu llysiau gardd a'u torri. Mae'n mynd nesa i nôl India corn wedi ei falu, a gafodd ei brynu yn y siop, ac mae'n dechrau coginio. Yn y DVD mae'r teulu'n bwyta pryd o India corn, pwmpen, bresych a chawl tomato.

*Sut byddech chi'n disgrifio iddi hi beth sy'n digwydd yn ystod eich prydiau bwyd chi?*

## CASGLU DWR [CIRCUMFLEX]

**Does dim dwr [circumflex] yn rhedeg o dap yng nghartrefi'r rhan fwya o bobl Lesotho – maen nhw'n gorfod cerdded at bistyll neu ffynnon i'w nôl.**

Plant, a merched yn fwyaf aml, sy'n gwneud y gwaith hyn. Pan fyddwch chi'n gorfod cerdded yn bell i nôl dwr [circumflex] fe fyddwch chi'n ei ddefnyddio'n ofalus. Felly pan mae Karaba eisiau ymolch, neu eisiau dwr [circumflex] i'w yfed neu i olchi llestri mae'n gwneud yn siwr nad ydy hi'n ei wastraffu; ac mae pob diferyn sydd ar ôl yn mynd i'r ardd.
*Ydych chi'n gwybod faint o ddwr [**circumflex**] rydych chi'n ei ddefnyddio bob dydd?*

## GERDDI TWLL Y CLO

**Mae'r rhan fwya o bobl Lesotho yn gorfod tyfu eu bwyd eu hunain oherwydd dydyn nhw ddim yn gallu fforddio prynu'r cwbl yn y siop.**

Mae gerddi twll y clo yn ffordd wych i bobl dyfu bwyd oherwydd maen nhw'n defnyddio'r maeth sydd yn y pridd. Does dim angen llawer o ddwrhau ac wrth ddefnyddio gwrtaith wedi ei wneud gartref maen nhw'n cael llawer mwy o gnwd. Maen nhw'n tyfu chillies, bresych, betys a sbinaets yn eu gerddi. Felly, nawr, fe allan nhw gasglu llysiau i'w bwyta pan mae angen.

*Pwy allai fod yn tyfu'r bwyd rydych chi'n ei fwyta? O ble mae e'n dod?*

## AMSER HAMDDEN

**Weithiau mae Karaba'n cael amser i chwarae - wedi iddi orffen ei holl waith.**

Fel arfer mae hi'n chwarae gyda Reitumetse, sy'n byw'n agos iddi. Maen nhw'n chwarae gêmau syml lle maen nhw'n neidio a bod yn fedrus - fel sgipio, 'hopscotch' a dandis. Dydy Karabo ddim yn cael llawer o amser hamdden a does dim parc lleol, felly mae'n chwarae yn ei gardd gefn.

*Pa gêmau ydych chi'n eu chwarae sydd yr un peth â rhai Karabo? Pa rai sy'n wahanol?*